


**YSGOL DAVID HUGHES
PORTHAETHWY**



**ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM
Y FLWYDDYN ACADEMAIDD
2016/2017**

YSGOL DAVID HUGHES

PORTRAETHWY



ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD **2016/2017**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni'r ysgol. Crynodeb sydd yma o'r modd y cyflawnodd y Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd **2016/2017**.

Y CORFF LLYWODRAETHU AM 2016/2017

CYNRYCHIOLAETH:	ENW:	HYD AT:
Pennaeth	Mr H Emry Williams	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mr Ian Davies Mr Dafydd Rhodri Eckley Mrs Anwen Last Mrs Mared Lewis Roberts Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams	21.11.20 21.11.20 31.08.17 31.01.20 21.11.20 31.01.20
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Menai Wyn Jones Mr Alun Roberts	31.08.20 06.05.19
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Wendy Williams	31.08.20
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cynghorydd Lewis Davies Cynghorydd Jim Evans Mrs Nia Lloyd Griffiths Cynghorydd Meirion Jones Cynghorydd Carwyn Elias Jones	31.05.17 31.05.17 31.08.20 31.05.17 31.05.17
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Dr John Meirion Davies Dr Hywel Wyn Jones Dr Neil Trevor Jones Mr Gwyn Morgan Lloyd Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.20 22.03.19 04.10.19 31.08.17 31.08.20
Cynrychiolwyr Disgyblion	Grace Charlotte Eickmann Shôn Alun Thomas	31.08.17 31.08.17
Clerc y Llywodraethwyr	Mrs Wendy Williams	

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR AM 2017/2018

yw Dr Neil Trevor Jones a gellir cysylltu ag ef drwy'r ysgol.

1. YR YSGOL

Roedd gan Ysgol David Hughes **1120** o ddisgyblion ar ei llyfrau ym mis **Medi 2016**. Rhif mynediad yr ysgol am **2017/2018** yw **216** o ddisgyblion ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Ym mis Medi **2017** mae gennym **1112** o ddisgyblion a **78** o athrawon gyda **44** o staff cefnogol.

2. NOD AC AMCANION YR YSGOL

Nod yr ysgol, mewn partneriaeth â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yw creu awyrgylch sy'n caniatáu i'r disgyblion ddatblygu i'w potensial eithaf, ac wynebu'n hyderus ofynion ein cymdeithas fodern ddwyieithog.

1. Ceisio meithrin cymdeithas waraidd sydd yn pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol gan roi sylw penodol i oddefgarwch a gofal dros eraill, yn arbennig y rhai lleiaf ffodus mewn bywyd.
2. Datblygu sylfaen o lythrennedd a gwybodaeth fatheategol, wydonol a thechnegol i alluogi'r disgybl i ddysgu sgiliau hanfodol gwaith a hamdden ar gyfer heddiw a'r cyfnod technolegol a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol.
3. Paratoi'r disgybl i wneud cyfraniad llawn i fywyd y gymdeithas y mae'n rhan ohoni. Yn achos Môn, cymdeithas ddwyieithog yw honno, felly, fe ddylid sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog os ydyw am gyrraedd y nod hwn.
4. Dysgu disgybl am gamp a dyheadau dyn yn y celfyddydau, y gwyddorau a chrefydd a'r ymchwil am gymdeithas gyfiawn.
5. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddatblygu meddwl ymchwilgar, bywiog; i holi a dadlau'n rhesymegol ac yna i ymroi i dasgau penodol.
6. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddeall sut y mae gwlad yn ennill ac yn cynnal ei safon byw gan roi sylw yn arbennig i bwysigrwydd diwydiant a byd gwaith.
7. Paratoi cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol.

3. DIWRNOD YSGOL

Rhennir y diwrnod fel a ganlyn:

8.45 - 9.10	Cychwyn y diwrnod Ysgol/Cofrestru
9.10 - 10.00	Gwers 1
10.00 - 10.50	Gwers 2
10.50 - 11.05	Egwyl
11.05 - 11.55	Gwers 3
11.55 - 12.45	Gwers 4
12.45 - 1.35	Cinio
1.35 - 2.30	Gwers 5
2.30 - 3.20	Gwers 6

4. CYFARFODYDD Y LLYWODRAETHWYR

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu ar y dyddiadau a ganlyn:

3	Hydref 2016
12	Rhagfyr 2016
2	Mawrth 2017
26	Mehefin 2017

3 Hydref 2016

Etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Enwebwyd Llywodraethwr Dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf ac o amrywiol ohebiaeth.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynnyddol i'r Llywodraethwyr ar Ddiogelu Plant 2015/2016.

Ystyriwyd canlyniadau'r arholiadau allanol a'r targedau blynnyddol.

Trafodwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2016/2017.

Derbynwyd adroddiad o'r Cyngor Ysgol gan y Disgyblion-Lywodraethwyr.

12 Rhagfyr 2016

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbynwyd cofnodion yr Is-baneli, a phenderfynwyd mabwysiadu'r polisiau a argymhellwyd gan yr Is-Banel Polisiau.

Derbynwyd adroddiad o'r Cyngor Ysgol gan y Disgyblion-Lywodraethwyr.

Derbynwyd adroddiad y Pennaeth yn nodi digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol.

Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r hunan arfaniadau'r canlyniadau a thrafodwyd materion staffio a chyllid.

Trafodwyd ymgynghoriad CSYM "Cwrdd â'r Heriau: Ein Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2017/18".

Adolygwyd Cynllun Datblygu'r ysgol ar gyfer 2016-2017.

Cyflwynwyd gwybodaeth am drefn nosweithiau rhieni – system newydd bwcio apwyntiadau ar-lein.

2 Mawrth 2017

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbynwyd cofnodion yr Is-baneli, a phenderfynwyd mabwysiadu'r polisiau a argymhellwyd gan yr Is-Banel Polisiau.

Trafodwyd trefniadau'r ysgol ar gyfer Arolwg ESTYN cyfagos.

Trafodwyd Hunan Arfaniad Ysgol Gyfan a'r data a gyflwynwyd.

Adolygwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2016/2017.

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynnyddol y Llywodraethwyr i Rieni ar gyfer 2015-2016.

Derbynwyd adroddiad o'r Cyngor Ysgol gan y Disgyblion-Lywodraethwyr.

26 Mehefin 2017

Derbynwyd enwebiad cynrychiolydd cyfetholedig.

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbynwyd cofnodion yr Is-baneli, a phenderfynwyd mabwysiadu'r polisiau a argymhellwyd gan yr Is-Banel Polisiau.

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth am ddigwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol.

Derbynwyd cyflwyniad ar "Building Learning Power".

Cyflwynwyd adroddiad ESTYN – Arolwg Mawrth 2017.

Trafodwyd rhagolygon niferoedd ar gyfer Medi 2017.

Mabwysiadwyd y gyllideb derfynol am **2017/2018**.

Penderfynwyd derbyn mantolen diwedd blwyddyn ar gyfer cronfa'r ysgol.

Derbynwyd cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer cyllideb **2016/2017**.

Trafodwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2017/2018.

Trafodwyd materion staffio.

YMDDYGIAD A DISGYBLAETH – EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed. Disgwyliwn felly i gyfeillgarwch, cydweithrediad a synnwyr cyffredin fod yn sail i'r gweithgaredd. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol bydd gofyn i ddisgyblion wneud llawer o benderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol. Mae llwyddiant yn yr ysgol, addysg bellach, hyfforddiant neu fydd gwaith yn gofyn am ymroddiad a gwaith caled. Er mwyn ceisio helpu'r disgylion i gyrraedd y safon ddisgwylledig gobeithiwn greu'r amodau a'r awyrgylch gywir o fewn yr ysgol.

Dylai pob aelod o'r ysgol ddangos parch tuag at yr aelodau eraill, disgyl tuag at ddisgybl, disgyl tuag at athro, ac aelodau o'r ysgol tuag at ymwelwyr.

Mae pob disgyl yn aelod o grŵp tiwtorial ac mae'r tiwtor dosbarth bob amser yn barod i roi cyngor, helpu gydag ymholaiddau neu geisio datrys problemau.

Mae athrawon yn y dosbarth i weithio gyda'r grŵp cyfan. Fe fyddant, wrth gwrs, yn barod i roi sylw unigol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw unigolion difeddwyl yn amharu ar y dosbarth.

Os oes gan unrhyw riant sylw i wneud ar y datganiad uchod gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethu trwy'r ysgol.

Yn ogystal â chyfarfodydd y Corff Llywodraethu llawn mae gan y Llywodraethwyr 5 Is-bwyllgor sef, Adeiladau, Cyllid a Phersonél, Lles a Chymunedol, Polisiau, a Chwricwlwm a Safonau a chyfarfu'r rhain nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cyfarfu'r Is-banel Penodi ac Is-banel Disgyblaeth fel bo'r galw.

5. GWYBODAETH I RIENI

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol a'r meysydd llafur gan y Pennaeth.

Cyhoeddir llawlyfr - Gwybodaeth i Rieni - yn flynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Yn ogystal â hyn cynhyrchwyd llawlyfrau i rieni yn ymwneud â:

Mynediad i'r ysgol
Dewisiadau Blwyddyn 10
Mynediad i Flwyddyn 12
Disgyblaeth
Gwaith Cartref
Cyfarwyddyd Gyrfaoedd
Addysg Iechyd
Polisi Iaith

Mae Bwletin Rhieni sy'n cael ei gyhoeddi'n achlysuol yn rhoi'r wybodaeth diweddana.

6. ADEILADAU'R YSGOL

Archwiliodd y Llywodraethwyr adeiladau'r ysgol ar **26 Mehefin 2017**.

Cafodd yr addasiadau ganlyn eu gwneud:

- **Gampfa'r Genethod**
Gosodwyd llawr newydd yn y gampfa a'i farcio'n bwrpasol ar gyfer amrywiol chwaraeon.
- **Diffibrilydd**
Dangoswyd ble mae'r diffibrilydd wedi'i osod ar wal tu fewn i'r ardal aros ymwelwyr yn y Dderbynfa. Mae un arall wedi'i osod tu fewn i'r Neuadd Chwaraeon.
- **Man Parcio Ymwelwyr a'r 'Lôn Slip'**
Ail-wneud y lôn slip yn ddwy res gyda rhwystr yn y canol a chroesfan bwrpasol i'r disgylion groesi'n ddiogel i iard yr ysgol o'r ceir. Addaswyd ardal parcio ymwelwyr ar gyfer arhosiad byr.
- **Y Gorad**
Gosodwyd partisiwn i greu ystafell fach o fewn yr ystafell ddosbarth.
- **Drysau Tân**
Uwchraddio rhai drysau Tân i gynnwys panel gwydr.
- **Lloriau**
Adnewyddwyd llawr D02 a gosodwyd carped newydd yn ystafelloedd A06, B10 a 107.
- **Peintio**
Gwnaed rhywfaint o beintio.

- **Ystafell D02**
Addaswyd yr ystafell drwy osod meinciau gweithio bwrpasol er mwyn cynyddu nifer o orsafoedd cyfrifiadurol yn yr ystafell.
- **Ystafell B10**
Addaswyd yr ystafell drwy osod meinciau gweithio newydd pwrpasol er mwyn cael 28 o orsafoedd cyfrifiadurol ynddi.
- **Tanciaw Dŵr**
Gwacawyd y tanciaw dŵr a'u glanhau yn dilyn arolwg Legionella.
- **Lifft**
Cychwynnwyd ar y gwaith gosod lifft (mynediad i 3 llawr Bloc B) yng nghefn y Neuadd.

7. YMDDEOLIADAU A PHENODIADAU STAFF

Staff sydd wedi gadael:

Mrs Gwennant Pyrs Roberts	Pennaeth Adran Gerdd
Mrs Alwen Derbyshire	Athrawes Gymraeg
Mr Andrew Keith Hughes	Athro Technoleg
Mr Kevin Tulliver	Athro Technoleg
Mrs Meinir Williams	Cyd-lynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
Miss Bethan Mair Williams	Athrawes Dynaethau
Mrs Rona Ann Holland	Athrawes Hanes
Mr Gareth Roberts	Athro Hanes
Mrs Lois Wyn Molyneux Owen	Athrawes Gwyddoniaeth
Miss Tanya Jones	Athrawes Gelf
Mrs Awen Haf Ashworth	Athrawes Gwyddoniaeth
Miss Catrin Wyn Griffiths	Athrawes Addysg Grefyddol
Mr Cemlyn Jones	Athro Mathemateg
Mrs Patricia Lloyd Jones	Cymhorthyydd Cefnogi Dysgu
Mr Tomos Emry John Phillips	Cymhorthyydd Cefnogi Dysgu
Mrs Liz Dorrington	Cymhorthyydd Cefnogi Dysgu

Penodwyd y rhai a ganlyn:

Mrs Jayne Southgate	Athrawes Saesneg
Miss Glynwen Mair Davies	Athrawes Technoleg
Mr Gethin Dafydd Long	Athro Addysg Gorfforol
Mr Peter Siôn Elwyn Keir	Athro Mathemateg
Miss Lowri Puw Rees	Athrawes Gymraeg
Miss Catrin Wyn Griffiths	Athrawes Addysg Grefyddol
Mr Aled Wynn Jones	Cymhorthyydd Cefnogi Dysgu
Miss Emma Wyn Roberts	Cymhorthyydd Cefnogi Dysgu
Mrs Audrey James Thomas	Swyddog Cefnogi Ysgol
Mrs Llinos Medi Jones	Swyddog Cefnogi Ysgol

8. CYSWLLT CYMUNEDOL A GWEITHGAREDDAU

- Trefnwyd nifer o ymwelliadau addysgol yn ystod y flwyddyn.
- Bu defnydd cymunedol cyson o'r ysgol a'r Ganolfan Hamdden.
- Drwy amrywiol weithgareddau yn yr ysgol cyfrannwyd at fywyd cymdeithasol, elusennol a diwylliannol.
- Cafwyd cymorth yn ystod y flwyddyn gan asiantaethau allanol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.
- Mae disgylion o'r ysgol yn gwneud gwaith gwirfoddol yn lleol.
- Mae nifer fawr o ddisgyblion wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol tu allan i oriau'r ysgol, ee chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, ayyb.
- Bu grŵp UNICEF yr ysgol yn llwyddiannus i dderbyn gwobr efydd fel ysgol sy'n parchu hawliau.
- Bu ymdrech i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni a chynhalwyd nifer o gyfarfodydd i esbonio polisi a threfn fel a ganlyn:
 - Bwletin Rhieni
 - Cyfarfod rhieni ar gyfer pob blwyddyn ysgol
 - Cyfarfod i drafod mynediad i Flwyddyn 12/Opsiynau 16+
 - Cyfarfod i drafod dewisiadau Blwyddyn 10
 - Cyfarfod i drafod mynediad i golegau
 - Ymwelwyd â holl ysgolion cynradd y dalgylch i drafod trosglwyddo cynradd-uwchradd
 - Ymweliad 3 diwrnod yn ystod tymor yr Haf gan darpar-ddisgyblion (Blwyddyn 6).

- Cyfarfod gyda rhieni disgylion Blwyddyn 6 ysgolion cynradd er mwyn gwneud y broses o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn un esmwyth.
- Cefnogwyd amryw o elusennau yn ystod y flwyddyn.
- Trefnwyd prosiectau cwricwlaidd gyda diwydiannau lleol.

9. LLWYDDIANNAU'R FLWYDDYN

Hysbysir rhieni yn rheolaidd am Iwyddiannau'r ysgol drwy'r Bwletin Rhieni, gwefan yr ysgol a Thrydar a'r dulliau cyfathrebu arferol ee Papur Menai.

10. GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL YR ADRAN ADDYSG GORFFOROL 2016/2017

Pêl-droed Bechgyn

Unwaith eto eleni, cynrychiolwyd yr ysgol gan dimau o bob grŵp oedran. Cofrestrodd y timau dan 12, dan 13, dan 14, dan 15 a dan 18 yn y gystadleuaeth Cwpan Eryri.

Yn anffodus collodd y timau dan 13, dan 14 a dan 15 yn y rownd gyntaf a cholodd y tîm dan 18 ar giciau cosb yn yr ail rownd. Y tîm dan 12 oedd yr un mwyaf llwyddiannus, gan gyrraedd y rownd gynderfynol cyn colli o drwch blewyn. Hefyd chwaraewyd sawl gêm gyfeillgar gan bob grŵp oedran.

Pêl-droed Merched

Yn ystod y tymor 2016-17, cofrestrwyd dau dîm yn y gystadleuaeth Cwpan Eryri, sef y tîm dan 13 a'r tîm dan 15. Yn anffodus collodd y tîm iau eu gêm olaf, ond aeth y tîm dan 15 ymlaen i'r rowndiau cenedlaethol cyn colli ar giciau cosb yn y diwedd. Cystadloedd tri thîm yn nhwrrnamaint blynnyddol 7 bob ochr Eryri yn Llangefni efo'r tîm genethod bl 7 yn ennill eu cystadleuaeth a'r timau bl 8 a 9 yn colli yn y rownd gynderfynol.

Rybgi Bechgyn

Yn ystod tymor yr hydref 2016, cynrychiolodd y timau dan 14 ac 16 yr ysgol yng nghyngħrair Ynys Môn. Perfformiodd y ddua dîm yn wych, y ddua yn ennill eu cynghrair ac yn ennill rhai gemau o sgôr oedd yn record. Cynrychiolodd y ddua dîm Ynys Môn yng Nghwpan Cymru, efo'r tîm dan 14 yn colli yn y rownd gyntaf a'r tîm dan 16 yn yr ail rownd.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2017, cynrychiolodd y timau dan 13 ac 15 yr ysgol yng nghystadleuaeth Cwpan Eryri. Yn anffodus collodd yr rhai dan 13 yn yr ail rownd. Enilloedd y tîm dan 15 daid rownd cyn colli i fuddugwyr y gystadleuaeth yn y rownd gynderfynol.

Dewiswyd 4 o'r bechgyn ar gyfer carfan dan 15 RGC y Gorllewin a hefyd 4 bachgen ar gyfer y garfan dan 16. Enilloedd y bechgyn dan 15 dwrrnamaint 7 bob ochr yr Urdd Gogledd Cymru.

Rybgi Genethod

Cynhalwyd sesiynau hyfforddi wythnosol trwy gydol tymor yr haf gyda nifer o ferched yn mynchu'n gyson. Yn eu gemau cyntaf, enilloedd y tîm 15 bob ochr bl 9 a 10 dwrrnamaint yng Nghaernarfon. Cofrestrwyd 2 dîm dan 15 i'r twrnamaint 10 bob ochr yng Nghlwby Rybgi Caernarfon, ble y chwaraeodd y tîm 'A' 7 gêm gan ennill pob un. Chwaraeodd y ddua dîm yn dda iawn. Ym Mehefin, cystadloedd genethod blwyddyn 9 am y tro cyntaf yn nhwrrnamaint 7 bob ochr Cenedlaethol y WRU/Urdd yn Llanelli gan gyrraedd y rownd gogynderfynol. Dewiswyd un disgyl ar gyfer carfan dan 18 RGC.

Pêl-rwyd

Mae gan yr ysgol dimau ar gyfer pob grŵp blwyddyn o fl 7 i 11 a hefyd ar lefel dan 14, dan 16 a dan 18. Trefnwyd sawl gêm gyfeillgar reolaidd yn erbyn ysgolion lleol, gyda'r holl dimau yn ennill canran uchel o'u gemau.

Enilloedd y timau dan 14, dan 16 a than 18 eu twrnameintiau Ynys Môn eu hunain.

Hefyd enilloedd y timau dan 16 ac 18 y twrnameintiau Eryri. Cynrychiolodd y tîm dan 16 Eryri yn nhwrrnamaint Cymru yng Nghwmbrân.

Dewiswyd 3 geneth ar gyfer carfan dan 14 Eryri, 4 ar gyfer y garfan dan 16 a 2 ar gyfer y garfan dan 18.

Hoci

Er gwaethaf diffyg hyfforddiant digonol a chyfleusterau chwarae gwael, cynrychiolwyd yr ysgol gan ddua dîm mewn gwahanol gemau cyfeillgar a thwrnameintiau. Cystadloedd y tîm dan 14 yn nhwrrnamaint Môn/Arfon a daethant yn ail. Wedyn bu'r tîm yn cystadlu yn nhwrrnamaint Eryri lle, er gwaethaf perfformiadau ardderchog yn erbyn timau oedd yn brofiadol mewn chwarae ar leiniau astro turf (yn lle tarmac!!), daethant yn gyfartal mewn 2 gêm a cholli 2 gêm.

Criced

Cafodd y tîm dan 14 y bechgyn dymor llwyddiannus gan golli o drwch blewyn yn rownd derfynol Cwpan Eryri.

Badminton

Roedd timau o flynyddoedd 8 a 9 yn llwyddiannus yn nhwrrnamaint Ynys Môn, â'r cwbl yn ennill yn eu grwpiau oedran.

Athletau

Yn dilyn cystadleuaeth Ynys Môn yn Nhreborth, aeth sawl unigolyn ymlaen i gynrychioli Môn yng nghystadleuaeth Eryri. Yn dilyn hyn dewiswyd 6 athletwr i gynrychioli Eryri yn athletau Ysgolion Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd lle enillwyd un fedal arian ac un fedal efydd gan 2 ddisgybl.

Yng nghystadlaethau'r timau athletau, daeth y ddau dim blwyddyn 7 yn gyntaf a chafwyd rhai perfformiadau unigol ardderchog. Enillodd y timau blwyddyn 8 merched a bechgyn a'r tîm blwyddyn 10 merched yn eu grwpiau oedran gan fynd ymlaen i gynrychioli Ynys Môn yn rownd Eryri. Daeth bechgyn bl 9 a bl 10 yn ail trwy Eryri a chystadlu yn y Plât yn rownd derfynol yr Ysgolion Cymraeg yn Aberhonddu.

Traws gwlad

Cystadloedd 6 tîm o Ysgol David Hughes yng nghystadlaethau Ynys Môn gyda llawer o unigolion yn mynd ymlaen i Bencampwriaethau Eryri yn Nolgellau lle yr enillodd un disgybl blwyddyn 9 ei ras. Aeth 4 disgybl ymlaen i redeg dros Eryri ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn Aberhonddu.

Gymnasteg

Cystadloedd rhai disgyblion yn y gystadleuaeth lefel brofiadol ym Mhenygroes a hefyd yn y gystadleuaeth ysgolion Eryri yng Nghaernarfon.

Athletau dan do

Cynrychiolodd 4 tîm yr ysgol yng nghystadleuaeth athletau dan do Ynys Môn ym Mhlas Arthur. Daeth y timau merched blwyddyn 8 a hefyd blwyddyn 9/10 yn gyntaf.

Dewiswyd llawer o ddisgyblion i gynrychioli Gogledd Orllewin Cymru yng nghystadleuaeth Cymru yng Nghwmbrân.

Caiacio

Cymrodd sawl tîm o'r ysgol ran yng nghystadleuaeth Ynys Môn gyda'r tîm merched dan 16 yn dod yn 2il a'r bechgyn blwyddyn 7/8 yn dod yn 3ydd yng nghystadleuaeth Gogledd Cymru.

Clogfeinio

Yng nghystadleuaeth Ynys Môn enillodd y 4 tîm eu grwpiau oedran eu hunain. Cynrychiolodd y 4 tîm Ogledd Cymru yn y gystadleuaeth Gogledd Cymru a daeth 3 thîm yn 2il a'r genethod blwyddyn 8 yn 1af.

11. GWYLIAU YSGOL I DDISGYBLION AR GYFER 2017/2018

TYMOR	GWYLIAU
HYDREF 2017 1 Medi – 22 Rhagfyr	1 Medi 2017 – Hyfforddiant Mewn Swydd – dim ysgol i'r disgyblion 30 Hydref – 3 Tachwedd 2017 (Hanner Tymor yr Hydref) 25 Rhagfyr 2017 – 5 Ionawr 2018 (Gwyliau'r Nadolig)
GWANWYN 2018 8 Ionawr – 23 Mawrth	12 – 16 Chwefror 2018 (Hanner Tymor y Gwanwyn) 26 Mawrth – 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)
HAF 2018 9 Ebrill – 20 Gorffennaf	7 Mai 2018 (Calan Mai) 28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner Tymor y Sulgwyn) 23 Gorffennaf – 31 Awst 2018 (Gwyliau'r Haf)

12. CANLYNIADAU ARHOLIADAU

Mae canlyniadau arholiadau'r ysgol ar gyfer **Haf 2017** yn cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurflen SSSP, sef **PAPURA**. Mae'r ffurflenni yn dangos perfformiad yr ysgol o'i gymharu â rhai o'r targedau cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn ymfalchiö yn y canlyniadau ardderchog sy'n adlewyrchu gwaith caled a llwyddiant y bartneriaeth allweddol rhwng yr athrawon, y disgyblion a'u rhieni. Byddwn yn anelu at gynnwl y safonau uchel hyn yn y dyfodol.

13. CANLYNIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 3 A THARGEDAU AR GYFER 2017-2018

Gweler **PAPUR B** sydd yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

14. CYLLIDEB 2016-2017

Gweler y ddogfen ddwyieithog **PAPUR C** am fanylion am gyllideb **2016/2017**.

15. HYNT DISGYBLION

Gweler **PAPUR D.**

16. PRESENOLDEB DISGYBLION

Gweler **PAPUR E.**

Targed Presenoldeb 2017/2018 = 96%

17. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae polisi'r ysgol yn seiliedig ar hawl pob disgyl i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn Ysgol David Hughes gaiff disgylion eu hintegreiddio mor llwyr ag y mae'n bosibl i ddosbarthiadau prif ffrwd. Lle y ceir anawsterau neilltuol yn y pynciau craidd, Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, gwneir darpariaeth ar gyfer dosbarthiadau llai lle y gall disgylion dderbyn mwy o sylw unigol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn.

Caiff disgylion y mae arnynt angen cymorth y tu hwnt i'r mwyafri o'u cyfoedion eu hystyried yn ddisgylion ag Anghenion Ychwanegol. Gallent amrywio o ddisgylion sydd ar ddatganiad Anghenion Ychwanegol yr AALL ac sy'n derbyn cymorth penodol i ddisgylion sy'n cael anhawster mewn un maes cwricwlwm yn unig. Gallent fod yn anawsterau corfforol, neu emosiynol yn ogystal ag anawsterau academaidd.

Mae'r cydweithrediad agos rhwng Penaethiaid Adrannau a'r Cyd-gysylltydd Anghenion Ychwanegol yn arwain at fonitro cynnydd yn fanwl a lle ceir achos o bryder, gellir gweithredu'n syth.

Anogir cadw cysylltiad agos rhwng rhieni disgylion Anghenion Ychwanegol a'u hathrawon.

Gellir monitro disgylion unigol hefyd drwy Nosweithiau Rhieni ac asesiadau dair gwaith y flwyddyn.

Cynigir hefyd gymorth ychwanegol i ddisgylion y tu allan i'r amserlen ffurfiol. Gweithredir cynllun darllen ar y cyd bob bore yn ystod y cyfnod cofrestru pan fydd disgylion yr ysgol iau yn ymarfer darllen gydag aelod o Flwyddyn 12. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn wrth ysgogi darllenwyr gwan neu gyndyn i gynyddu eu gallu a'u mwynhad wrth ddarllen. Yn ystod pedwar amser cinio'r wythnos cynhelir clybiau a grwpiau cymorth amrywiol sy'n cynnig cynhaliaeth ychwanegol i ddisgylion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Clybiau megis y Clwb Gwaith Cartref a'r Grŵp Cynnal Dyslecsia wedi dod yn boblogaidd ymhlið disgylion sydd erbyn hyn yn eu mynchyu'n wirfoddol. Mae disgylion ag anghenion ychwanegol yn ymuno'n llawn yn holl weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol yr ysgol ac anogir hwy i gymryd rhan gyflawn ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol a chael budd o wneud hynny.

18. DISGYBLION ANABL

Mae Ysgol David Hughes yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Addysg a'r asiantaethau perthnasol i sicrhau nad yw disgylion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgylion eraill.

19. GWEITHREDU AC ADOLYGU STRATEGAETHAU'R YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Ysgol sy'n cynnwys blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cyswllt gyda'r gyllideb yn holl bwysig ac mae nifer o'r strategaethau datblygol wedi eu costio'n fanwl.

Mae crynodeb o'r blaenoriaethau ar gael yn yr ysgol.

20. Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YN YR YSGOL

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ddwyieithog Categori 2B, sydd yn golygu, addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Mae'r ysgol yn dilyn Polisi Iaith Ysgolion Ynys Môn a'i phrif amcan yw datblygu gallu disgylion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog.

Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgylion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Ar gyfer disgylion sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac yna byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant, yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

Ei amcan yw sicrhau bod pob disgyl yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau yn unol â gallu ieithyddol pob unigolyn, er mwyn sicrhau parhad addysg ddwyieithog ar ôl y cynradd.

21. CYFARFOD GYDA CHORFF LLYWODRAETHU'R YSGOL

Yn dilyn newid yn y drefn pan ddaeth Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Cymru 2013 i rym, nid yw'n orfodol i gynnal cyfarfod blynnyddol gyda rhieni mwyach.

Yn ystod 2016-2017, ni chyflwynwyd deiseb i gynnal cyfarfod, felly ni chafwyd un.

22. Y CORFF LLYWODRAETHU O 1 MEDI 2017

Mae'r Corff Llywodraethu o **1 Medi 2017** yn unol â'r rhestr isod.

Cynhelir yr etholiad nesaf ar gyfer rhieni-llywodraethwyr pan fydd cyfnodau'r aelodau presennol yn dod i ben.

CYNRYCHIOLAETH:	ENW:	HYD AT:
Pennaeth	Mr H Emry Williams	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mr Ian Davies Mr Dafydd Rhodri Eckley Mrs Glesni C Pritchard Mr Andrew William Sharrock Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams	21.11.20 21.11.20 31.08.21 31.08.21 21.11.20 31.01.20
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Menai Wyn Jones Mr Alun Roberts	31.08.20 06.05.19
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Wendy Williams	31.08.20
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cyngropydd Lewis Davies Mrs Nia Lloyd Griffiths Cyngropydd Carwyn Elias Jones Cyngropydd Meirion Jones Cyngropydd Robin Wyn Williams	31.08.21 31.08.20 31.08.21 31.08.21 31.08.21
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Dr John Meirion Davies Dr Hywel Wyn Jones Dr Neil Trevor Jones Mr Dafydd Idriswyn Roberts Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.20 22.03.19 04.10.19 31.08.21 31.08.20
Cynrychiolwyr Disgyblion	Elin Lloyd Griffiths Morgan Jack Taylor	31.08.18 31.08.18
Clerc y Llywodraethwyr	Mrs Wendy Williams	

23. POLISIAU WEDI'U MABWYSIADU

Mabwysiadwyd y polisiau canlynol yn ystod y flwyddyn academaidd 2016-2017 gan y Llywodraethwyr:-

Polisi Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Polisi Camddefnyddio Sylweddau

Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoeedd

Polisi Amddiffyn Plant

Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol

Polisi Arholiadau a Chynllun wrth gefn

Polisi Presenoldeb a Phrydlondeb

Polisi Apeliadau Mewnol Ynglŷn â Phenderfyniadau ar Asesiadau Mewnol ac Ymholaadau Ynglŷn â'r Canlyniadau

Polisi Asesu

Polisi Cwricwlwm

Polisi Cyllid

Polisi Cymunedol
Polisi Cysylltiadau Cynradd/Uwchradd
Polisi Datblygiad Moesol ac Ysbrydol
Polisi Gwaith Cartref
Polisi Llythrenedd a Chyfathrebu
Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Da
Polisi Teithiau/Ymweliadau Addysgol
Polisi Cynghorau Disgyblion
Polisi Gwsg Ysgol
Asesiad dan Reolaeth – Proses Rheoli Risg
Polisi Cyflog
Polisi Defnyddio Dyfeisiau Personol
Polisi Bwyd a Ffitrwydd
Polisi Adborth i Ddysgwyr
Polisi Asesiad Di-arholiad – Proses Rheoli Risg
Polisi Toiledau
Polisi Arholiadau i Ddysgwyr ag Anableddau
Polisi Atal Radicaleiddio ac Eithafiaeth
Polisi Camerâu Cylch Cyfng (CCTV)
Adroddiad Blynnyddol i'r Corff Llywodraethu ar Ddiogelu Plant (CSYM)

24. CYFLEUSTRAU TOILEDAU

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf ac wedi adnewyddu 4 bloc toiled. Mae'r toiledau yma yn gwbl breifat gyda drws yn ymestyn i'r nenfwd ar bob ciwbwl. Rhoddyd camerâu CCTV i gadw golwg ar y rhan agored wrth y sinciau ym mhob toiled i sicrhau nad oes neb yn camymddwyn tuag ddisgyblion eraill nag yn difrodi'r eiddo. Cedwir y toiledau yn lân gyda chyflenwad digonol o sebon a phapur yn ddyddiol drwy gytundeb glanhau Cyngor Sir Ynys Môn.

25. HYRWYDDO BWYD A FFITRWYDD

Mae'r grŵp Bwyd a Ffitrwydd (Is bwylgor cyngor ysgol) wedi ei sefydlu i drafod materion sydd yn ymwneud â hybu bwyta ac yfed iach yn yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r grŵp, sydd yn cynnwys disgyblion blwyddyn 7-13, wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda staff y ffreutur yn ogystal â chynrychiolwyr o Caterlink. Dyma flas o beth mae'r grŵp yn gweithio arno ar hyn o bryd:

- Yn dilyn gwaith Cadeirydd y Grŵp Bwyd a Ffitrwydd gyda chwmni teledu Darlun yn agor siop dros dro ym Mhorthaethwy, cynyddwyd amlder prydau pysgod ar y fwydlen.
- Wedi adnabod dyddiau themâu arbennig ee Gŵyl Dewi, cinio Nadolig ac wedi addurno'r ffreutur ar eu cyfer.
- Creu pamffled i rieni ar fwytâ'n iach.
- Yn ystod diwrnod sgiliau, bu myfyrwyr y Chweched Dosbarth dderbyn hyfforddiant coginio er mwyn bwyta'n iach.
- Mae'r grŵp ECO wedi ennill Gwobr Ansawdd y Faner Werdd am dyfu llysiau a'u gwerthu.

**YSGOL DAVID HUGHES
MENAI BRIDGE**



**THE GOVERNORS' REPORT FOR THE
ACADEMIC YEAR
2016/2017**

This report is presented to parents. It is a summary of how the Governors fulfilled their duties during the **2016/2017** academic year.

THE GOVERNING BODY FOR 2016/2017

REPRESENTATIVE	NAME	EFFECTIVE UNTIL:
Headteacher	Mr H Emry Williams	in his capacity as Headteacher
Parents' Representatives	Mr Ian Davies Mr Dafydd Rhodri Eckley Mrs Anwen Last Mrs Mared Lewis Roberts Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams	21.11.20 21.11.20 31.08.17 31.01.20 21.11.20 31.01.20
Teachers' Representatives	Mrs Menai Wyn Jones Mr Alun Roberts	31.08.20 06.05.19
Support Staff Representative	Mrs Wendy Williams	31.08.20
Local Education Authority Representatives	Cynghorydd Lewis Davies Cynghorydd Jim Evans Mrs Nia Lloyd Griffiths Cynghorydd Meirion Jones Cynghorydd Carwyn Elias Jones	31.05.17 31.05.17 31.08.16 31.05.17 31.05.17
Co-opted Members	Dr John Meirion Davies Dr Hywel Wyn Jones Dr Neil Trevor Jones Mr Gwyn Morgan Lloyd Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.20 22.03.19 04.10.19 31.08.17 31.08.20
Pupils' Representatives	Grace Charlotte Eickmann Shôn Alun Thomas	31.08.17 31.08.17
Clerk to the Governing Body	Mrs Wendy Williams	

THE CHAIRMAN OF THE GOVERNORS FOR 2017/2018

is Dr Neil Trevor Jones and he may be contacted through the school.

1. THE SCHOOL

Ysgol David Hughes had **1120** pupils on the school roll in September **2016**. The prescribed admission number for **2017/2018** is **216** pupils for each school year group. In September **2017** we have **1112** pupils and **78** teachers and **44** support staff.

2. THE SCHOOL'S AIM AND OBJECTIVES

The school aims, in partnership with pupils, parents and governors to create an atmosphere that will allow all pupils to develop to their full potential and, in doing so, meet the needs and demands of our changing bilingual society.

